Teitl

# Astudiaeth Beilot SATC Ymchwil Gwersi a Ddysgwyd: Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol

| | |
|---|---|
| Rhif yr adroddiad | 2402.DG.0047-01 |
| Fersiwn | Fersiwn Cryno |
| Paratowyd gan | John Riley |
| Wedi'i baratoi ar gyfer | Llywodraeth Cymru |
| Dyddiad | 20 Awst 2025 |

www.sustenic.co.uk

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau allweddol Astudiaeth Cynllun Peilot Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), a archwiliodd brofiadau landlordiaid tai cymdeithasol o weithredu gofynion safon newydd SATC i wella cynhesrwydd fforddiadwy a chyflawni datgarboneiddio. Datgelodd yr astudiaeth heriau sylweddol i landlordiaid wrth ddatblygu Asesiadau Stoc Cyfan (WSAs) a Llwybrau Ynni Targed (TEPs) fel yr amlinellir yng nghanllawiau SATC 2023.

Cynhaliwyd yr astudiaeth ar draws 8 landlord o ogledd, de a chanolbarth Cymru ac roedd yn cynnwys landlordiaid y cyngor a chymdeithasau tai.  Roedd y cymdeithasau tai yn cynnwys y rhai a oedd yn rheoli stoc a drosglwyddwyd yn bennaf a'r rhai a oedd wedi datblygu a neu gaffael eu stoc eu hunain.

Daeth ansawdd data i'r amlwg fel mater sylfaenol, gyda thua 30% o'r stoc dai heb ddata Tystysgrifau Perfformiad Ynni uniongyrchol. Nid oedd unrhyw landlordiaid wedi cynnal Asesiadau Ansawdd Data ffurfiol ( DQAs), ysgrifenedig, gyda'r mwyafrif yn dibynnu ar werthusiadau llafar anffurfiol. Roedd integreiddio data ynni â systemau rheoli asedau yn cyflwyno heriau technegol i'r holl gyfranogwyr, gan gymhlethu'r gwaith o asesu.

Mae datblygu TEPs yn gofyn am gysylltiad â systemau meddalwedd ar wahân i alluogi llif data a chyfathrebu effeithlon.  Profodd y broses hon o integreiddio meddalwedd yn fwy cymhleth na'r disgwyl. Er bod meddalwedd modelu ynni wedi bod yn llwyddiannus o ran nodi mesurau gwella, roedd landlordiaid yn cael trafferth gyda chynllunio gweithredu, yn enwedig o ran dilyniant mesurau ac integreiddio â rhaglenni cyfalaf presennol a oedd yn gofyn am integreiddio systemau meddalwedd unigol. Roedd y rhan fwyaf o waith dadansoddol wedi'i anfon yn allanol oherwydd arbenigedd mewnol cyfyngedig, gyda landlordiaid fel arfer yn cyflogi dim ond un aelod o staff oedd â'r sgiliau perthnasol.

Gwelwyd bod datblygu TEPs y gellid eu gweithredu, un ddrud. Nododd cynlluniau peilot a gwblhawyd gostau cyfartalog fesul annedd o £25,000-£30,000, sy'n llawer uwch na'r lefelau ariannu presennol. Dim ond 28-45% o anheddau allai gyflawni SAP 92 gan ddefnyddio'r mesurau cyfredol, a dynnodd sylw at gyfyngiadau technegol sylweddol.

Nid oedd yr un o'r landlordiaid peilot wedi cyrraedd y cam "Dilyniannu" ffurfiol fel y disgrifir yng nghanllawiau SATC, gyda chynnydd cyfyngedig o ran nodi a mynd i'r afael â rhwystrau. Roedd landlordiaid yn ei gweld hi'n anodd meddwl y tu hwnt i raglenni tymor byr oedd yn cael eu gyrru gan gyllid i ddatblygu cynlluniau cynhwysfawr, hirdymor. Er bod y rhan fwyaf wedi mynegi parodrwydd i gyflwyno data ar lefel anheddau erbyn mis Mawrth 2025, roedd ansicrwydd sylweddol ynghylch fformatau a disgwyliadau adrodd.

Un sylw allweddol drwy gydol yr astudiaeth hon fu'r bwlch sylweddol rhwng y gofynion damcaniaethol a amlinellir yn y canllawiau a'r realiti ymarferol y mae landlordiaid yn ei wynebu. Nod yr adroddiad hwn yw pontio'r bwlch hwn drwy roi argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth a all lywio polisi a mecanweithiau cefnogi Llywodraeth Cymru wrth symud


© Sustenic Limited

ymlaen. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys gwella canllawiau SATC gyda thempledi, canllawiau cam wrth gam, ac eglurhad o gysyniadau allweddol. Mae meysydd hanfodol sydd angen sylw yn cynnwys safoni prosesau ansawdd data, meithrin gallu dadansoddol, gwella integreiddiad meddalwedd, datblygu fframweithiau dilyniannu clir, ac adolygu modelau ariannu i gyd-fynd â'r gofynion buddsoddi sylweddol a nodwyd. Gyda chanllawiau, cefnogaeth ac adnoddau priodol, gall landlordiaid ddatblygu dulliau cynhwysfawr o wella cynhesrwydd fforddiadwy a chyflawni datgarboneiddio, ond ni ddylid tanamcangyfrif maint yr her.


© Sustenic Limited

# Cynnwys

1 Summary, Conclusions and Way Forward Error! Bookmark not defined.
1.1 Summary of Pilot Study Outcomes Error! Bookmark not defined.
1.2 Summary of key findings Error! Bookmark not defined.
1.3 Critical Issues Requiring Welsh Government Support Error! Bookmark not defined.
1.4 Way Forward Error! Bookmark not defined.

 © Sustenic Limited

# 1 Crynodeb, Casgliadau a'r Ffordd Ymlaen

## 1.1 Crynodeb o Ganlyniadau'r Astudiaeth Beilot

Mae Astudiaeth Beilot SATC wedi rhoi mewnwelediadau amhrisiadwy i'r heriau ymarferol sy'n wynebu landlordiaid tai cymdeithasol yng Nghymru wrth iddynt weithio tuag at dargedau datgarboneiddio. Mae'r astudiaeth wedi dangos, er bod y canllawiau presennol yn rhoi fframwaith defnyddiol, mae angen gwelliannau sylweddol i gefnogi gweithrediad effeithiol.

## 1.2 Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

1. Mae egwyddorion y canllawiau'n gadarn ond mae angen eu gwella'n ymarferol. Mae'r dull a amlinellir yn Atodiad 3 yn sylfaenol briodol, ond mae angen canllawiau mwy manwl, cam wrth gam ar landlordiaid ar sut i'w weithredu.

2. Mae ansawdd data yn parhau i fod yn her sylfaenol. Heb Asesiadau Ansawdd Data a Chynlluniau Gwella ffurfiol, mae landlordiaid mewn perygl o ddatblygu TEPs yn seiliedig ar wybodaeth anghyflawn neu anghywir. Mae integreiddio meddalwedd a rheoli data cysylltiedig yn fwy cymhleth na'r disgwyl. Mae'r rhyngweithio rhwng systemau rheoli asedau a meddalwedd modelu ynni (a data mewnol y landlordiaid) yn cyflwyno heriau technegol sylweddol.

3. Mae galluoedd dadansoddol yn ffactor cyfyngol hollbwysig. Mae cymhlethdod datblygu a dilyniannu TEPs ar gyfer pob annedd mewn stoc tai yn gofyn am sgiliau arbenigol nad oes gan y rhan fwyaf o landlordiaid yn fewnol ar hyn o bryd.

4. Mae'r trawsnewidiad o TEPs cychwynnol i derfynol yn gofyn am brosesau cliriach. Mae landlordiaid angen canllawiau manylach ar integreiddio mesurau gwella damcaniaethol gyda chyfyngiadau ymarferol gan gynnwys rhai o natur ariannol neu dechnegol

5. Mae bylchau adnoddau ac ariannu'n sylweddol. Mae graddfa'r buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni targedau yn llawer uwch na'r lefelau ariannu presennol, sy'n creu heriau cynllunio sylweddol. Mae angen mwy o ganllawiau ar sut y dylid mynd i'r afael â'r heriau hyn wrth ddatblygu TEPs.

6. Mae parodrwydd ar gyfer drodd yn amrywio'n sylweddol. Er bod y rhan fwyaf o landlordiaid yn bwriadu cyflwyno data lefel annedd erbyn Gwanwyn 2025, bydd ansawdd a chyflawnrwydd y data hwn yn amrywio'n sylweddol.

## 1.3 Materion Critigol sydd angen cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru

1. Realiti'r Bwlch Ariannu: Mae'r cynllun peilot wedi datgelu costau cyfartalog fesul annedd o £25,000-£30,000 ar gyfer cyflawni'r targedau, gan greu gofyniad ariannu blynyddol sy'n sylweddol uwch na'r lefelau presennol. Mae landlordiaid angen eglurder ynghylch sut y bydd y wybodaeth hon yn llywio strategaethau ariannu yn y dyfodol.


© Sustenic Limited

2. Dichonoldeb Cyflawni Targedau: Dim ond 28-45% o anheddau allai gyflawni SAP 92 yn y cynlluniau peilot sydd wedi'u cwblhau. Mae hyn yn awgrymu cyfyngiadau technegol sylweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw trwy bolisi neu lwybrau cydymffurfio amgen.

3. Cyfyngiadau o ran Sgiliau ac Adnoddau: Mae prinder cenedlaethol o aseswyr, cydlynwyr a dadansoddwyr data ôl-osod yn tanseilio'r capasiti cyflawni. Mae angen datblygu gweithlu strategol ochr yn ochr â chanllawiau technegol.

4. Tensiwn rhwng Cynllunio Tymor Byr a Thymor Hir: Mae cyllid y rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) cyfredol yn ysgogi meddwl tymor byr, gan ddargyfeirio adnoddau o gynllunio strategol. Mae angen dull mwy integredig o ariannu a chydymffurfio.

5. Canllawiau Gweithredu Ymarferol: Mae angen canllawiau cam wrth gam mwy manwl ar landlordiaid, yn enwedig ar gyfer DQAs, Cynlluniau DQIP, a phontio o'r TEPs cychwynnol i'r rhai terfynol.

## 1.4 Ffordd Ymlaen

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon, rydym yn argymell y ffordd ganlynol ymlaen i Lywodraeth Cymru:

1. Ychwanegu’r argymhellion penodol a amlinellir yn yr adroddiad hwn er mwyn gwella'r ddogfen ganllawiau, gan ganolbwyntio'n benodol ar dempledi, canllawiau cam wrth gam, ac eglurhad o gysyniadau allweddol yn fwyaf arbennig TEPs ac ystyried ailgyflwyno'r cysyniad o TEPs Dros Dro.

2. Datblygu offer gweithredu ymarferol gan gynnwys templedi ar gyfer DQAs a DQIPs, fformatau adrodd, a fframweithiau dilyniannu ar gyfer TEPs.

3. Buddsoddi mewn hyfforddiant a mentrau rhannu gwybodaeth a chadw ar gyfer meithrin gallu dadansoddol.

4. Datblygu astudiaethau achos o arfer gorau i ddangos dulliau effeithiol o ymdrîn â heriau allweddol.

5. Creu platfform rhannu gwybodaeth lle gellir rhannu arferion gorau, astudiaethau achos, a gwersi a ddysgwyd ymhlith landlordiaid.

6. Ymgysylltu â darparwyr meddalwedd i wella galluoedd integreiddio a datblygu offer sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer cefnogi cydymffurfiaeth SATC.

7. Rhoi eglurder ar ddisgwyliadau adrodd cychwynnol ar gyfer Gwanwyn 2025, gan gydnabod y gwahanol gamau o ran parodrwydd landlordiaid.

8. Hwyluso adroddiadau testun SATC (yn hytrach na thaenlenni) trwy dempledi a hyfforddiant safonol ychwanegol.

9. Adolygu modelau ariannu gan ystyried y gofynion buddsoddi sylweddol a nodwyd trwy'r cynllun peilot.


© Sustenic Limited

10. Egluro'r targedau a sut y maent yn ymwneud â'i gilydd, yn enwedig y berthynas rhwng gofynion SAP 75 a SAP 92.

11. Ystyried dull gweithredu graddol sy'n cydnabod yr heriau sylweddol a nodwyd o ran cyflawni cydymffurfiaeth lawn.

Mae'r astudiaeth beilot wedi dangos y gall landlordiaid ddatblygu dulliau cynhwysfawr o ddatgarboneiddio gyda chanllawiau, cymorth ac adnoddau priodol. Fodd bynnag, ni ddylid tanamcangyfrif maint yr her, yn enwedig o ran gofynion cyllido a chyfyngiadau technegol.


© Sustenic Limited

© Sustenic Limited